**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**A gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth 11eg o Hydref am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**

Cynghorwyr – William Jones (WJ), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Olwen Roberts (OR), Gwyn D Roberts (GR), Sianelen Pleming (SP) Lisbeth James (LJ), Emlyn Hughes (EH) a'r Cyng Aled Jones (AJ).

1. **Ymddiheuriadau -** Dim

2. **Hysbysebiadau y Cadeirydd**

2.1 Cafwyd croeso gan y Cadeirydd Olwen Roberts. Croesawyd PCSO Geraint Williams ar gyfer eitem 4.5 islaw a gynhaliwyd a'r ddechrau'r cyfarfod.
2.2 Sedd Wag:-
Nodwyd fod rhybudd cyfethol wedi'i arddangos ar yr hysbysfwrdd o'r tua allan i Siop Llithfaen rhwng am bythefnos hyd at y 3ydd o Hydref. Rhwng ymddangosiad y rhybudd etholiad a'r rhybudd cyfethol dangoswyd diddordeb gan Griff Jones pryd y gofynwyd iddo ddilyn y cyfarwyddiadau ar y rhybudd cyfethol o fewn y dyddiadau a nodwyd arno. Ni fu mewn cysylltiad wedyn. *GR i gysylltu ag o i holi os oes ganddo ddiddordeb o hyd.*
.

3. **Datgan Diddordeb – Neb**

4. **Cofnodion**

4.1 Cynigodd John Owen fod cofnodion y 13eg o Fedi yn gywir ac eiliodd Gwyn Roberts.

4.2 **Dŵr yr Eifl –** *Mae'r Cyng. AJ a JO am ymweld a'r safle ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned.*

4.3 **Opsiynau o ran perchnogaeth y Ganolfan** – Esboniodd y Clerc nad yw prydles ddrafft Canolfan Llithfaen wedi dodi law eto. Nododd ei fod yn disgwyl i Adran Stadau y Cyngor Sir ddychwelyd galwad ffôn i drafod y gôst a gorchwyl llawn y brydles drafft.
Cyfeiriodd y Clerc at yr angen i ffactro'r costau proffesiynol a fyddai ynghlwm ac adnewyddu prydles y Ganolfan i ragolygon 17/18 er mwyn pennu'r praesept priodol.
Gan fod briff presennol y brydles ddrafft yn nodi y disgwylir ir Cyngor Cymuned gymryd y Ganolfan trosodd 'fel ac y mae' datganwyd pryder am ofynion statudol yng nghyd destun materion fel asbestos.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

*Gofynwyd i'r Clerc edrych trwy'r les bresennol i weld gan bwy mae'r cyfrifoldeb am wahanol agweddau o'r adeilad ar hyn o bryd. Gall gysylltu gyda Chyngor Gwynedd pe byddai angen eglurhad ar unrhyw agwedd.*
*Gofynwyd i SP ddod a chopi o'r archwiliad gweddol ddiweddar o'r Ganolfan a ymgymerwyd gan Syrfewr Proffesiynol i'r cyfarfod nesaf.*

4.4**Hysbysfwrdd ar wal y siop** – Mae wedi cyrraedd ac yn y Ganolfan ar hyn o bryd.

4.5**Ymweliad gan PCSO Geraint Williams** – (Cynhaliwyd y drafodaeth ar ddechrau'r cyfarfod ac yna ymadawodd PCSO Geraint Williams.)
Esbonwyd natur y broblem or-yrru ym mhentre Llithfaen gan gynnwys y lleoliadau a'r amseroedd perthnasol. Nododd PCSO Geraint Williams y camau y gall yr Heddlu eu cymryd a'i fod am eu trafod yn yr Orsaf cyn penderfynu ar y ffordd orau i weithredu. Trafodwyd ffyrdd y gall fod o gymorth gyda materion eraill. *Addawodd gylchredeg ei fanylion cyswllt.*

4.6**Adolygiad Cyflog y Clerc -** Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad a gylchredwyd o flaen llaw. Nodwyd cywiriad i baragraff 7 i fod yn 'Roedd y Clerc o dan yr argraff iddo gylchredeg canllawiau a swydd disgrifiad ddrafft i'r Cadeirydd ei hystryied.'
Penderfynodd y Cyngor dalu £261.51 y mis i'r Clerc am y tri mis diwethaf. Mae hyn yn cynrychioli y tâl sy'n ddyledus ar raddfa yr isafswm cyflog am yr oriau a weithiodd.
*Gofynwyd i'r Clerc:-*

- *barhau i gadw cofnod o'r amser y mae'n ddynodi i waith y Cyngor am y tro, er mwyn sefydlu sail gadarn i raddfa cyflog sy'n deg i'r dyfodol -*
- *gylchredeg model o swydd ddisgrifiad Clerc o lyfryddiaeth Un Llais Cymru i bob aelod,*
- *gylchredeg y model mwyaf diweddar o Reolau sefydlog o lyfryddiaeth Un Llais Cymru i bob aelod.*

4.7**Costau Gweinyddol** – Esboniodd y Clerc fod Elin Tudur, y cyn Glerc, yn hawlio £5 y mis at ddefnydd ei chyfrifiadur ar gyfer gwaith y Cyngor Cymuned a £5 y mis at y defnydd o'i ffôn. Nid oedd gan unrhyw Gynghorydd wrthwynebiad i'r Clerc presennol wneud 'run modd.

5. **Ceisiadau Cynllunio** - Dim

6. **Gohebiaeth**

6.1**Biniau halen:** Adroddod y Clerc nad yw wedi clywed gan y Cyngor eto.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

6.2 **Toiledau Cyhoeddus Llithfaen -** Adroddodd OR i'r Cyngor Cymuned alw cyfarfod cyhoeddus nos Lun y 19 o Fedi i roi cyfle i drigolion yr ardal ddatgan eu dyheadau o ran dyfodol Toiledau Cyhoeddus Llithfaen. Un aelod o'r cyhoedd yn unig a fynychodd. Cafwyd diweddariad ar yr ohebiaeth â'r Cyngor Sir ers cyfarfod y 13 o Fedi gan y Clerc.

Ar ôl trafodaeth deg a chytbwys penderfynodd y Cyngor Cymuned trwy bleidlais yn unfrydol, arwahân am ymataliad gan SP, i hysbysu'r Cyngor Sir: NAD oes ganddynt ddiddordeb mewn:

1. partneriaethu gyda Chyngor Gwynedd o ran toiledau cyhoeddus Llithfaen ar gyfer 17/18,
2. na rheoli toiledau cyhoeddus Llithfaen i'r dyfodol.

*Gofynwyd i'r Clerc hysbysu'r Cyngor Sir o'r penderfyniad.*

6.3 **Gohebiaeth amrywiol:** Tynodd y Clerc sylw'r Cyngor yn benodol at yr ohebiaeth canlynol:

**Ciosg Pistyll** - Mae ciosg ffôn Pistyll ar restr ymgynghori ynglyn a'u cau gan BT. Un galwad ffôn yn unig a wnaethpwyd oddi yno tros y 12 mis diwethaf. Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor Cymuned wrthwynebiad i'r ciosg BT ym Mhistyll gael ei gau na diddordeb yng nghynnig BT iddynt fabwysiadu ciosg coch 'traddodiadol'. *Y Clerc i ymateb yn unol â hynny i'r ymgynghoriad.*

**Codwch Faner tros y Gymanwlad** – Penderfynwyd peidio cymryd rhan yn yr ymarfer hwn

6.4 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

6.5 Penderfynwyd caniatau i'r Clerc dynnu sylw'r Aelodau at negeseuon e-bost a dderbynir rhwng cyfarfodydd ar raddfa perthnasedd.

7. **Unrhyw Fater Arall**

7.1 **Barbio ffordd Pistyll i Pentreuchaf** – *Y Clerc i ddiweddaru yn y cyfarfod nesaf.*

7.2 **Ffrydiau gwaith gweinyddol yn deillio o newidiadau yng ngofynion y Rheoleiddwyr**

7.2.1 **Asesiad Risg –** Mae'r Cyngor bellach yn gweithio ar y cynllun gweithredu sy'n deillio o'r asesiad risg. Y pwynt gweithredu o dan sylw ar hyn o bryd ydyw sefydlu perchnogaeth rhan o fynwent Pistyll. Mae GW wedi darganfod gweithredoedd y safle ac wedi eu rhoi i'r *Clerc i ystyried y camau sydd angen eu cymryd rwan ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

7.2.2**Rheolau Sefydlog:** Penderfynwyd cwblhau adolygiad o'r model mwyaf diweddar o Reolau Sefydlog o lyfryddiaeth Un Llais Cymru ar ddechrau cyfarfod yr 8 o Dachwedd, 2016.

7.3 **Presenoldeb ar yn we** – Tynwyd sylw'r Cyngor at ffyrdd i sefydlu a chynnal gwefan am ddim. Cyfeirwyd at 'webnode" ( https//us.webnode.com) a Weebly.com. *SP am ofyn wrth Luned Evans os y gall fod o gymorth.*

7.4 **Cofnodion Pwyllgor y Ganolfan –** Cyflwynodd yr ysgrifennydd gopi o gofnodion Pwyllgor y Ganolfan ar gyfer y ffeil.

**8.Cyllid**

8.1**Archwilio/cyfrifon 14/15 a 15/16 -** Cyfeiriodd y Clerc at ymateb yr Archwiliwyr Allanol hyd yn hyn. *Y Clerc i adrodd ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf.*
8.2**Rhaglygon Arianol -** Cyflwynwyd rhagolygon arianol diwygiedig 2016/17 at sylw'r Aelodau er gwybodaeth. *Y Clerc i fireinio un agwedd yn dilyn awgrym pellach.*
8.3 **Adolygiad Mantolen 6 mis –** Cyflwynodd y Clerc Fantolen Interim i'r Cyngor. Fe'i cymeradwywyd a'i derbyn fel ac y mae.

Trafodion ar y gyfriflen banc ddiweddaraf:
Derbyniadau: Dim
Taliadau: Dim
Balans cyfrif cyfredol : £4221.86
Balans Cyfrif cadw: £2743.15

Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -
£195.48 - Hysbysfwrdd
£684.53 – Cyflog Clerc (Gweler 4.6 uchod)
£103.37 - Costau gweinyddol

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 8 o Dachwedd am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347